

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Gwilym O Jones

Grŵp: Y Grŵp Annibynnol

Ward: Llifon

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol ym mis Mai 2017 fel 1 o 2 Cyngorydd dros Ward Llifon. Fe'm etholwyd yn Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Cyngor	9	9
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	6	6
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	6	5
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	1	1
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	2	2
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	3	3
Panel Dethol y Pwyllgor Safonau	3	1
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.		
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.</i>		

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 6 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf yn Aelod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth ac wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa	3	2
Llywodraethwr – Ysgol Gynradd y Fali	6	5
Llywodraethwr – Ysgol Uwchradd Bodedern	9	8

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn mynychu yn rheolaidd, gyfarfodydd misol Cyngorau Cymuned Llanfair yn Neubwll, Y Fali a Llanfaelog. Rwyf yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Gynradd y Fali.

Byddaf yn mynychu Neuadd Bentref Rhosneigr pob bore Sadwrn a Llyfrgell Rhosneigr ar brynhawn Mercher pan yn bosibl gyda fy nghyd gynghorydd lleol er mwyn cynorthwyo gydag amrywiol faterion gan etholwyr yr ardal.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Byddaf yn mynychu nifer o gyfarfodydd Grŵp Cymunedol ac yn cefnogi llawer o'u gweithgareddau.

Mynychais gyfarfodydd yn Llanfaelog a Rhosneigr oedd yn trafod Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell yn yr ardal.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Hyfforddiant IPad	12/05/2017
Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côt	18/05/2017
Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys	25/05/2017
Diogelu Sylfaenol	01/06/2017
Y Cyfansoddiad	05/06/2017
Deddf Tai	06/07/2017
Hyfforddiant materion Cynllunio	21/07/2017
Archwilio effeithiol	15/09/2018
Cyflwyniad i'r Archwilydd Cyffredinol	21/09/2018
Cwestiynu'n effeithiol yn Sgriwtini	04/12/2018
Hyfforddiant materion Cynllunio	05/03/2018
Rheoli Risg	23/03/2018
Hyfforddiant ACE	28/03/2018
Sesiynau Briffio Aelodau (11 allan o 12)	Mai 2017 – Mawrth 2018
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.</i>	

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Caergeiliog ac yn Gadeirydd Pwyllgor Papur Bro 'Y Rhwyd'.

Cefais y pleser o annerch Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd Bodedern i drafod gwaith Cynghorydd Sir.

Fel Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini, mynychais Gynhadledd yn Llanrwst gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini y 5 Sir arall yn y Gogledd i drafod pwysigrwydd Craffu yn y Sector Gyhoeddus.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=31&LLL=1>

Y Cyngorydd Gwilym O Jones	Ebrill 2018
-----------------------------------	--------------------